# Dewch Inni Gynhesu'r Gaeaf

## Mae cam bach yn mynd yn bell!

### 🎄 Agorwch Ofod Croeso Cynnes

- Defnyddiwch ofod sy'n bod yn barod: swyddfa cyngor, festri eglwys, neuadd bentref, llyfrgell
- Cynigiwch de/coffi am ddim, gemau bwrdd, cylchgronau, pwyntiau gwefru, wifi am ddim.
- Staffiwch gyda gwirfoddolwyr, cynghorwyr neu aelodau'r gymuned
- Hysbysebwch trwy argraffu posteri, cyfryngau cymdeithasol ac ar lafar
- Trefnwch ddyddiau hwb cynnes ar gyfer misoedd Ion–Mawrth ac argraffwch yr amserlen yn awr

💡 Gair i gall: Gofynnwch i gaffis neu archfarchnadoedd lleol roi te/coffi

Chwiliwch am Gyllid Hwb Cynnes trwy eich awdurdod lleol neu Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol

### 🧥 Trefnwch Gyfnewidiad Cotiau & Blancedi

- Gosodwch rheilen neu fwrdd mewn lle cyhoeddus (neuadd, ysgol, arosfan bws hyd yn oed)
- Gwahoddwch bobl i "gymryd beth mae nhw ei angen/gadael beth allant"
- Casglwch eitemau cynnes: cotiau, sgarffiau, menig, blancedi
- Defnyddiwch hysbysfyrddau lleol, cylchlythyrau ysgolion a grwpiau ar-lein i hyrwyddo

💡 Gair i gall: Partnerwch gydag ysgolion, sgowtiaid neu eglwysi ar gyfer casgliadau

Ychwanegwch "flwch gadael poteli dŵr poeth/twym"

**Gall camau bach gan gynghorau wneud argraff fawr ar lesiant y gaeaf.**

### 📄 Dosbarthwch Daflen Cymorth y Gaeaf

- Cynhyrchwch daflen 1 dudalen syml yn cynnwys:
  - Banciau bwyd lleol & elusennau cefnogaeth
  - Map neu restr o leoedd cynnes
  - Cyngor Ar Bopeth/cymorth lles
  - Llinellau cymorth iechyd meddwl & argyfwng
- Argraffwch yn fewnol neu gofynnwch i lyfrgelloedd, ysgolion neu eglwysi helpu dosbarthu
- Trefnwch a rhannwch negeseuon pwysig y gaeaf yn ddigidol ar gyfryngau cymdeithasol

💡 Gair i gall: Ychwanegwch god QR i gysylltu â gwybodaeth a gwasanaethau ar-lein

Cynhwyswch restr o rifau cyswllt brys ar gyfer gwasanaethau hanfodol (ee: toriadau trydan; dŵr)

Un Llais Cymru
One Voice Wales

## 🤝 Lansiwch Gynllun Cymydog Da

- Rhestrwch bobl allai fod angen:
  Galwad ffôn gyfeillgar
  Help gyda siopa, cerdded ci, neu glirio eira
  Lifft i apwyntiadau
- Ceisiwch ddenu a chysylltu gwirfoddolwyr lleol
- Defnyddiwch system gyfeillio, grŵp WhatsApp, neu gyswllt cymdogaeth

💡 Gair i gall: Cysylltwch gyda swyddogion PCSO, eglwysi lleol a meddygfeydd teulu er mwyn cyrraedd pobl fregus

Cynigiwch "Ffafr yr Ŵyl" - un cais bach fesul aelwyd i helpu cymydog

Danfonwch gerdyn "Llesiant y Gaeaf" at bobl sydd wedi'u hynysu. Cynhwyswch ffurflen gyswllt fer ar gyfer argyfyngau.

## 🥦 Cydlynwch Gasgliadau Bwyd Dros Ben

Cysylltwch ag archfarchnadoedd a siopau lleol ar gyfer bwyd dros ben dyddiol/wythnosol
Cysylltwch â gwirfoddolwyr lleol neu rwydweithiau banciau bwyd ar gyfer casglu'r bwyd
Dosbarthwch o hwb canolog (canolfan gymunedol, ysgol, neuadd y dref)
Darparwch wybodaeth ar pryd a lle y mae bwyd ar gael (Facebook, WhatsApp)

💡 Gair i gall: Rhannwch neges wythnosol "Bwyd Ar Gael" ar-lein neu mewn grwpiau WhatsApp

Ychwanegwch apêl tun bisgedi "Dewch & Rhannwch". Dosbarthwch roddion i bobl fregus

**Lledu cysur & gofal dros y Gaeaf eleni!**

## 🎯 Mwy o Syniadau Cyflym

- Trefnwch Baned Nadolig Gymunedol: 1-awr mewn neuadd
- Trefnwch Fwrdd Ail-roi Anrhegion: teganau neu lyfrau a ddefnyddiwyd yn ofalus
- Trefnwch Becyn Llesiant y Gaeaf: bagiau te, menig, taflen wybodaeth
- Ychwanegwch Fasged Nwyddau Ymolchi: sebon, siampw, past dannedd ar gyfer pobl mewn angen
- Cydlynwch Carolau & Chacen: côr lleol bach neu restr caneuon a the

## Sut I Roi Cychwyn Arni

✅ Dewiswch 1 prosiect i'w dreialu ym mis Hydref
🤝 Dewch o hyd i 2 bartner lleol (e.e. archfarchnad, ysgol, elusen)
📣 Defnyddiwch hysbysfyrddau Facebook, WhatsApp ar gyfer cael sylw cyflym
✍️ Penodwch un cynghorydd neu wirfoddolydd i arwain pob mini-brosiect

**Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru:**


One Voice Wales Website
CoLC@onevoicewales.wales
https://bit.ly/3KYHftK